Taith Gerdded y Gymdeithas Ddeintyddol 2012
W. J. Parry

Cynhaliwyd Taith Gerdded y Gymdeithas ddydd Sadwrn, Mehefin 9ed, 2011. Dr Justin Jones oedd yn gyfrifol am yr holl drefniadau. Wedi cyfarfod ym maes parcio Castell Deudraeth, Minffordd, cychwynnodd nifer o'r aelodau a'u gwŷr/gwragedd/partneriaid ar daith o amgylch pentref Portmeirion ac yna ymlaen i'r Gwyllt. Roedd Justin wedi paratoi'n fanwl ar ein cyfer, gan egluro nodweddion y pentref a'r fro mewn modd diddorol iawn. Er y gallai'r tywydd fod wedi bod fymryn yn garedicach wrth y cerddwyr, mwynhaodd pawb y daith a'r gwmnïaeth. I gloi'r rhan honno o'r gweithgaredd, cafwyd croeso a phanad yng ngartref Nan Griffiths, Y Rhos, Minffordd. Cyhoeddodd Nan lyfr yn ddiweddar ar hanes a nodweddion arbennig yr ardal ac eglurodd ychydig o hanes ei chartref a digwyddiadau o ddiddordeb hanesyddol yn y fro.

I gloi'r achlysur, cafwyd cinio yng ngwesty Castell Deudraeth a chyfle i sgwrsio a chymdeithasu ymhlith ein gilydd. Tynnwyd lluniau rhai o'r criw gan Dr T. Rhys Davies.

Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r trefniadau a wnaethai Justin ar ein cyfer ac edrychir ymlaen at daith gyffelyb y flwyddyn nesaf. Byddai swyddogion y Gymdeithas yn falch o dderbyn unrhyw awgrymiadau gan aelodau'r Gymdeithas ynghylch lleoliad a chynllun taith gerdded 2013.